Diweddariad am Aseiniadau Hwb

Mae platfform Hwb yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella'r ffordd mae'n gweithio a pha mor ddefnyddiol yw'r platfform. Fel rhan o'r gwaith hwn, nid yw'r offeryn Aseiniadau Hwb ar gael mwyach ac mae'r holl ddata o fewn Aseiniadau bellach wedi'i ddileu.

Offer amgen ar gael trwy Hwb

Defnyddir Dosbarthiadau Microsoft Teams a Google Classroom yn helaeth ar draws Hwb ac maen nhw wedi'u cynllunio ar gyfer creu Aseiniadau. Maen nhw'n caniatáu i chi:

- Osod, dosbarthu a chasglu aseiniadau yn ddigidol
- Rhoi adborth, marciau a sylwadau mewn un lle
- Atodi adnoddau'n uniongyrchol o OneDrive neu Google Drive ac offer Hwb eraill fel Adobe Express

Camau i'w cymryd

1. Dewiswch naill ai Microsoft Teams neu Google Classroom i reoli aseiniadau.
2. Sefydlwch ddosbarthiadau a threialu creu aseiniadau.

Cymorth wrth ddefnyddio Microsoft Teams i gymryd lle Aseiniadau Hwb

Sut i greu aseiniad yn Microsoft Teams

Nodweddion Aseiniadau Microsoft Teams Newydd

Cymorth wrth ddefnyddio Google Classroom i gymryd lle Aseiniadau Hwb

Sut i greu aseiniad yn Google Classroom

Ystyriaethau eraill

Ar hyn o bryd mae rhai ymarferwyr yn defnyddio Aseiniadau i rannu Rhestrau Chwarae Hwb. O 17 Gorffennaf 2026:

- Ni ellir creu Rhestrau Chwarae newydd
- Bydd y Rhestrau Chwarae presennol yn parhau i fod ar gael ond byddant mewn fformat **darllen-yn-unig**

Cymorth gan Hwb

Os oes angen cymorth arnoch chi, cysylltwch â Hwb.Datblygiadau@llyw.cymru neu Hwb.Development@gov.wales